Telerau ac amodau

Hysbysiad Cyfreithiol: amodau'r defnydd o wefan Horizon Nuclear Power

Mae Horizon Nuclear Power Services Limited a phob un o Fentrau ei Grŵp (term a ddiffinnir yn adrannau 1161 i 1162 o Ddeddf Cwmnïau 2006; "Horizon Nuclear Power" gyda'i gilydd) yn cynghori'r rhai sy'n mynd i wefan Horizon Nuclear Power (y "Wefan") eu bod, drwy ddefnyddio'r Wefan, yn derbyn y telerau a'r amodau a grybwyllir isod ar gyfer y Wefan.

Mae'r telerau a'r amodau canlynol yn berthnasol i holl gynnwys y Wefan ac i unrhyw ohebiaeth drwy e-bost rhwng Horizon Nuclear Power a'r ymwelydd â'i Wefan.

Er bod Horizon Nuclear Power yn gwneud ei orau i sicrhau bod mynediad ar gael i'r Wefan 24 awr y dydd fel rheol, ni fydd Horizon Nuclear Power yn atebol mewn unrhyw ffordd os nad yw'r Wefan ar gael ar unrhyw adeg neu am unrhyw gyfnod.

Mae Horizon Nuclear Power wedi gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau bod yr holl wybodaeth a geir yn y Wefan yn fanwl gywir wrth ei chynnwys, fodd bynnag, efallai bod rhai camgymeriadau anfwriadol ac achlysurol ynddi. Ni fydd Horizon Nuclear Power yn atebol os bydd yr wybodaeth a ddarperir yn y Wefan yn anghywir neu wedi dyddio. Hefyd, mae Horizon Nuclear Power yn cadw'r hawl i wneud newidiadau a chywiriadau i'r Wefan ar unrhyw adeg, heb rybudd.

Nid yw Horizon Nuclear Power yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw anghywirdeb yn y Wefan, nac am unrhyw wybodaeth sy'n cael ei hepgor ohoni, a'r ymwelydd a neb arall sy'n gyfrifol am unrhyw benderfyniadau a seilir ar yr wybodaeth a geir yn y Wefan. Nid yw'r wybodaeth a geir yn y Wefan yn wahoddiad i fuddsoddi neu i ddelio mewn ffordd arall mewn cyfranddaliadau neu Dderbynebau Americanaidd ar gyfer Adneuon mewn unrhyw rai o gwmnïau Horizon Nuclear Power ac ni ddylid dehongli'r wybodaeth felly.

Mae'r deunydd yn y Wefan hon yn cael ei ddarparu "fel y mae", heb unrhyw amodau, gwarantau na thelerau eraill o unrhyw fath. Yn unol â hynny, hyd eithaf yr hyn a ganiateir yn gyfreithiol, mae Horizon Nuclear Power yn darparu'r Wefan hon ar y sail bod Horizon Nuclear Power yn eithrio pob cynrychiolaeth, a'r holl warantau, yr amodau a'r telerau eraill a all, oni bai am yr hysbysiad cyfreithiol hwn, gael effaith mewn perthynas â'r Wefan hon.

Nid yw Horizon Nuclear Power yn gyfrifol am gynnwys y safleoedd rhyngrwyd allanol, gan gynnwys unrhyw ddolenni hyperdestun neu unrhyw eitemau eraill a ddefnyddir naill ai'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol o Wefan Horizon Nuclear Power.

Nid yw Horizon Nuclear Power yn derbyn unrhyw gyfrifoldeb am unrhyw ddifrod uniongyrchol, arbennig, anuniongyrchol, cosbol neu ganlyniadol, neu unrhyw ddifrod arall o ba fath bynnag sy'n ganlyniad o ba achos bynnag cysylltiedig â'r Wefan hon mewn unrhyw ffordd neu'n gysylltiedig â'r defnydd, yr anallu i ddefnyddio neu ganlyniad y defnydd o'r Wefan hon, unrhyw wefannau sydd wedi'u cysylltu â'r Wefan hon neu'r deunydd yn y Wefan hon, gan gynnwys, ond heb fod yn gyfyngedig i golled neu ddifrod oherwydd feirws a all heintio eich offer cyfrifiadurol, eich meddalwedd neu eich data, neu eiddo arall ar sail y ffaith eich bod wedi sicrhau mynediad i'r Wefan hon neu ei defnyddio neu bori ynddi, neu lwytho unrhyw ddeunydd i lawr o'r Wefan hon neu unrhyw wefannau eraill cysylltiedig â'r Wefan hon.

Ni chaiff ymwelwyr gamddefnyddio'r Wefan, gan gynnwys, heb gyfyngiad, hacio. Gwaherddir ymwelwyr rhag postio neu drosglwyddo i'r Wefan hon neu allan ohoni unrhyw ddeunydd:

(a) sy'n fygythiol, difenwol, aflednais, anweddus, bradwrus, sarhaus, pornograffig, difrïol, tebygol o achosi casineb radical, gwahaniaethol, peryglus, gwaradwyddus, ymfflamychol,

cableddus, yn torri cyfrinachedd, yn amharu ar breifatrwydd neu a all achosi anfodlonrwydd neu anghyfleustra; neu
(b) nad ydych chi wedi sicrhau'r holl drwyddedau a/neu gymeradwyaethau angenrheidiol ar ei gyfer; neu
(c) sy'n cyfateb i ymddygiad a fyddai'n cael ei ystyried fel trosedd, gan arwain at atebolrwydd sifil, neu'n annog ymddygiad o'r fath. Neu sydd fel arall yn torri'r gyfraith neu'n amharu ar hawliau unrhyw drydydd person mewn unrhyw wlad yn y byd; neu
(d) sy'n niweidiol yn dechnegol (gan gynnwys, heb gyfyngiadau, feirysau cyfrifiadur, bomiau rhesymeg, ceffylau Trojan, cynrhon, elfennau niweidiol, data llwgr, meddalwedd maleisus neu ddata niweidiol.

Mae pob hawlfraint a'r holl hawliau eiddo deallusol eraill dros unrhyw ddeunydd yn y Wefan yn eiddo i Horizon Nuclear Power. Oni bai eu bod yn derbyn caniatâd ysgrifenedig gan gynrychiolydd o Horizon Nuclear Power, dim ond at eu defnydd eu hunain y caiff ymwelwyr argraffu a llwytho dyfyniadau i lawr o'r Wefan, ac ar y sail a ganlyn:

(a) nid yw'r dogfennau neu unrhyw luniau cysylltiedig yn y Wefan yn cael eu haddasu mewn unrhyw ffordd
(b) nid yw unrhyw luniau yn y Wefan hon yn cael eu defnyddio ar wahân i'r testun cyfatebol; a
(c) mae'n rhaid i hysbysiadau hawlfraint a nod masnach Horizon Nuclear Power a'r caniatâd hwn ymddangos ar bob copi.

Mae unrhyw ymwelydd â Gwefan Horizon Nuclear Power sy'n darparu gwybodaeth i Horizon Nuclear Power yn cytuno bod gan Horizon Nuclear Power hawliau digyfyngiad dros wybodaeth o'r fath, fel y'i darperir, ac y gall Horizon Nuclear Power ddefnyddio gwybodaeth o'r fath mewn unrhyw ffordd a ddewisir gan Horizon Nuclear Power.

I'r graddau eithaf a ganiateir gan y gyfraith, ni fydd unrhyw wybodaeth a ddarperir gan yr ymwelydd yn gyfrinachol.

Bydd y telerau a'r amodau hyn yn cael eu rheoli gan Gyfraith Loegr a'u dehongli yn unol â'r gyfraith honno. Bydd unrhyw anghydfod sy'n codi mewn perthynas â'r hysbysiad cyfreithiol hwn yn dod o dan awdurdodaeth ddethol llysoedd Lloegr.